Fforwm y Sir
Rhaglen

Dyddiad: Dydd Mawrth 19 Mehefin 2018

Amser: 6.30pm - 8.30pm

Lleoliad: Canolfan Gymunedol Coed-llai, King Street, Coed-llai, Sir y Fflint, CH7 4SB

Yn Cynnal/ Cadeirio: Cyngor Cymuned Coed-llai a Phontblyddyn

1. Materion y Cyngor

1A. Y wybodaeth ddiweddaraf am y Lluoedd Arfog -Janette Williams, Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Lluoedd Arfog

Pwrpas:

(1) Sicrhau bod Cynghorau Tref a Chymuned yn ymwybodol o Gyfamod y Lluoedd Arfog a chodi ymwybyddiaeth o waith Grŵp Llywio'r Lluoedd Arfog yn Sir y Fflint, a

(2) Gofyn i'r Fforwm gynnig rhywun i'w cynrychioli yn y cyfarfodydd hyn.

Cefndir:

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn ymrwymiad gan y genedl i sicrhau bod cymuned y Lluoedd Arfog yn cael eu trin yn deg ac nad ydynt o dan anfantais oherwydd eu gwasanaeth.

1B. Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn Sir y Fflint – Fiona Mocko, Ymgynghorydd Polisi Strategol, Cyngor Sir y Fflint

Pwrpas:

(1) Codi ymwybyddiaeth o Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer Sir y Fflint, a

(2) Nodi camau y gellir eu symud ymlaen gan Gynghorau Tref a Chymuned.

Cefndir:

Mae gan y Cyngor ddyletswydd o dan Safonau'r Gymraeg i gynhyrchu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg i gynyddu neu gynnal nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg yn y sir. Mae'r strategaeth yn ceisio codi proffil a chynyddu gweledded a'r gallu i archwilio'r Gymraeg a diwylliant yn Sir y Fflint. Byddai'r Cyngor yn hoffi pe bai Cynghorau Tref a Chymuned yn darparu cefnogaeth i gyfrannu at y Strategaeth. Bydd drafft Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn destun ymgynghoriad.

1C. Adolygiad y Gwasanaeth Bws – Stephen Jones, Prif Swyddog- Strydwedd a Chludiant, Cyngor Sir y Fflint

Pwrpas:
Darparu trosolwg o'r pedwar dewis sydd wedi'u cyflwyno fel rhan o'r Adolygiad yn unol â'r cytundeb yng nghyfarfod Fforwm y Sir ym mis Mai 2018

Cefndir:
Cynhelir adolygiad presennol o'r rhwydwaith bysiau yn Sir y Fflint i sicrhau bod cymorthdaliadau yn cael eu darparu mewn modd cyson, teg a chyfiawn ar draws y Sir ac ystyried y dull gorau o flaenoriaethu cyllid cyhoeddus cyfyngedig lle bo'r angen mwyaf.

1D. Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddiwygio Llywodraeth Leol – Colin Everett, Prif Weithredwr, Cyngor Sir y Fflint

Pwrpas:
(1) Adlewyrchu ar drafodaeth y cyfarfod llawn ar Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gynghorau Tref a Chymuned yn y cyfarfod diwethaf, ac ystyried cyflwyno ymateb ar y cyd fel Fforwm y Sir.
(2) Diweddaru ar yr ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd Diwygio Llywodraeth Leol: Atgyfnerthu Llywodraeth Leol a'r camau nesaf sy'n bosibl gan Lywodraeth Cymru ac
(3) Edrych ymlaen tuag at waith adolygu ffiniau yn y dyfodol.

Cefndir:
Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiadau paralel o ddyfodol llywodraeth leol a chynghorau tref a chymuned, a'u diwygiad posibl. Cynhaliwyd trafodaeth lawn yn y cyfarfod diwethaf ym mhresenoldeb swyddog Llywodraeth Cymru.

2. Eitemau Cynghorau Tref a Chymuned

Eitemau a gyflwynwyd gan Gynghorau Tref a Chymuned.

Disgwyl i Awdurdodau Lleol wella mynediad i doiledau - Cyngor Cymuned Llaneurgain

Pwrpas:
I dderbyn eglurhad ynglŷn â 1) bwriad y Cyngor a, 2) a oes dyletswydd ar Gynghorau Cymuned i gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth yn eu hardal.

Cefndir:
O dan Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) gan Lywodraeth Cymru, bydd gan awdurdodau lleol flwyddyn i asesu anghenion y gymuned, gan gynnwys cyfleusterau newid ar gyfer babanod a chyfleusterau newid ar gyfer pobl anabl, a rhoi strategaeth yn ei lle i sicrhau y bydd gan y cyhoedd well mynediad at y cyfleusterau hyn.

Gwybodaeth bellach ar gael:
https://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2018/publictoilets/?lang=en

3. Cyfarfodydd yn y Dyfodol

Dyddiad: Nos Iau 4 Hydref 2018

Amser: 6.30pm - 8.30pm

Cadeirydd: Cyngor Tref Saltney

Lleoliad: Canolfan Gymunedol Douglas Place, Woodhall Avenue, Saltney, Sir y Fflint, CH4 8NB.

Eitemau arfaethedig ar gyfer y Rhaglen – 4 Hydref 2018:

- **Cyflwyniad / Arddangosiad DEWIS –** Arddangos DEWIS a'i werth fel adnodd ar gyfer gwella iechyd a lles **(Helen Jones / Kate Howard)**